

Peilota llwybr i ddiwydiant ffilm a theledu uwchraddol y DU fod yn garbon sero ac yn ddiwasttraff

Cynllun Trawsnewid Bargaen
Newydd y Sgrin i Gymru

Cyd-destun

Ateb her yr hinsawdd

Ar ôl cynnydd byd-eang mewn tanau gwyllt, lifogydd a thymereddau anrhagweladwy dros y 12 mis diwethaf, mae effeithiau'r newid yn yr hinsawdd yn glir i bawb eu gweld ac mae dyddiadau targedau sero net yn prysur nesáu.

Ymateb gan y diwydiannau sgrin

Mae gan ddiwydiannau sgrin rôl unigryw, a chyfrifoldeb unigryw, am fynd i'r afael â her yr hinsawdd. Mae cynhyrchiad ffilm cyfartalog sy'n cefnogi stiwdio yn cynhyrchu ôl troed carbon gerllaw 3000 tonnall fetrig – cymaint â gyrru car diesel o gwmpas y byd 300 gwaith – gan fynnu sylw a ffydd cynulleidfaoedd mawr ar yr un pryd.

Rhwystrau rhag newid

Mae cynhyrchu teledu a ffilm yn defnyddio llawer o deithio a phŵer, gyda chadwyni cyflenwi mawr a chymhleth. Mae amser a chyllidebau gwneuthurwyr ffilm yn gyfyngedig, a phrin yw'r arbenigwyr hyfforddedig ar gynaliadwyedd. Fel arfer, mae criwiau yn bobl lawrydd ac mae gofynion talentau yn amrywio. Mae data a thargedau yn brin. Yn ogystal, mae gwrthbwyso, mewn rhai achosion, wedi galluogi'r sefyllfa sydd ohoni i barhau.

Y llwybr at sero net

Wedi'i ariannu gan y BFI trwy ddyfarniad y Loteri Genedlaethol a thrwy weithio mewn partneriaeth ag Arup, mae Cynllun Trawsnewid Bergen Newydd y Sgrin (SND) yn adeiladu ar adroddiad gwreiddiol yr SND a ryddhawyd gan albert yn 2020. Mae'n darparu llwybr ymarferol a chyflawnadwy at ddyfodol mwy cynaliadwy i bobl sy'n gweithio ym maes cynhyrchu ffilm a theledu, gan leihau carbon a gwastraff.

Ffeithiau Allweddol



Mae'r ffilm gyfartalog yn cynhyrchu bron i

3,000

tonnall fetrig o garbon – cymaint â gyrru car diesel o gwmpas y byd 300 gwaith

(Ffynhonnell: Adroddiad Bergen Newydd y Sgrin, 2020)

Pam Cymru?

A chanddi sector diwydiannau creadigol arwyddocaol, sy'n tyfu'n gyflym ac a oedd â throshiant o £4 biliwn yn 2022, dewiswyd Cymru fel lleoliad ar gyfer peilot o Gynllun Trawsnewid SND. Mae gan Gymru dargedau cynaliadwyedd uchelgeisiol ac mae cynnydd wedi bod yn addawol ond yn ddarniog.

Seiliedig ar ddata

Yn dilyn dadansoddiad trylwyr o ddata sydd ar gael ynghyd â chyfweliadau â rhanddeiliaid allweddol, mae'r cynllun hwn, a ddatblygwyd gan Arup gyda help gan Cymru Greadigol, Ffilm Cymru Wales a Clwstwr, yn rhoi golwg ar bolisi, deddfwriaeth a chynnydd presennol, ynghyd ag astudiaethau achos o arfer gorau er mwyn cynnig un fframwaith ar gyfer y llwybr at sero net.

Ymagwedd ymarferol

Mae argymhellion ymarferol Cynllun Trawsnewid SND i Gymru yn cwmpasu pum maes: newid i ynni adnewyddadwy, ailfeddwl trafndiaeth, agwedd gylchol at fynd i'r afael â deunydd gwastraff a gwastraff bwyd, rhannu gwybodaeth ar arfer gorau, a newid i'r diwylliant yn y diwydiant.

Y camau nesaf...

Mae'n alwad glir i holl randdeiliaid y diwydiant ffilm a theledu uwchraddol weithredu, o reolwyr cynhyrchu a chriw stiwdio, cyflenwyr, cyrff ariannu, comisiynwyr a darparwyr hyfforddiant, a bydd yn cynnig glasbrint ar gyfer y llwybr at sero carbon a sero wastraff i rannau eraill o'r DU, gan ddefnyddio data a dysgu a gasglwyd fel rhan o'r peilot hwn. Mae'r crynodeb hwn yn cwmpasu argymhellion allweddol yr adroddiad, sydd ar gael i'w darllen yn llawn [yma](#).

Ffeithiau Allweddol



Hydrogen generators used on BBC SpringWatch. (Source: [GeoPura](#))


Defnyddiwyd pŵer disel mewn

91%

o eneraduron ar setiau yng Nghymru'r llynedd

(Ffynhonnell: data ôl troed albert ar gyfer 2022)

Negeseuon allweddol



Ffeithiau Allweddol



Solar-powered studio space at TBY2. (Source: [The Bottle Yard](#))


Dim ond 14% o gynyrchiadau sy'n cael eu ffilmio mewn stiwdios yn y DU sy'n defnyddio ynni adnewyddadwy

(Ffynhonnell: data ôl troed albert ar gyfer 2022)

Map Argymhellion

Datblygwyd y map hwn er mwyn dod â'r camau gweithredu a'r targedau a nodwyd yn y cynllun trawsnewid ynghyd. Mae lliwiau yn ôl thema wedi cael eu neilltuo i'r camau gweithredu allweddol ac maent wedi cael eu gosod ar linell amser hyd at 2031 a'r tu hwnt. Mae rhai camau gweithredu'n perthyn i nifer o themâu. Rhestrir y rhanddeiliaid allweddol yn y gweithredu o fewn yr adroddiad hwn.

Allwedd ■ Diwydiant ffilm cylchol ■ Ailfeddwl trafniadaeth ■ Lledaenu creu gwybodaeth ■ Adnoddau ynni a thanwydd ■ Gweithgareddau sy'n berthnasol i bob thema



Ffeithiau Allweddol



Roedd teithio ar y ffordd yn cyfrif am

80%

o allyriadau trafniadaeth ar gyfer cynyrchiadau a ffilmwyd yng Nghymru

(Ffynhonnell: data ôl troed albert ar gyfer 2022)

Map Argymhellion

Datblygwyd y map hwn er mwyn dod â'r camau gweithredu a'r targedau a nodwyd yn y cynllun trawsnewid ynghyd. Mae lliwiau yn ôl thema wedi cael eu neilltuo i'r camau gweithredu allweddol ac maent wedi cael eu gosod ar linell amser hyd at 2031 a'r tu hwnt. Mae rhai camau gweithredu'n perthyn i nifer o themâu. Rhestrir y rhanddeiliaid allweddol yn y gweithredu o fewn yr adroddiad hwn.

Allwedd ■ Diwydiant ffilm cylchol ■ Ailfeddwl trafnidiaeth ■ Lledaenu creu gwybodaeth ■ Adnoddau ynni a thanwydd ■ Gweithgareddau sy'n berthnasol i bob thema



Ffeithiau Allweddol



25%

o'r pren a ddefnyddiwyd wrth adeiladu setiau ledled Cymru gafodd ei ailgylchu'r llynedd

(Ffynhonnell: data ôl troed albert ar gyfer 2022)

Beth sydd nesaf?

Mae pedwar maes allweddol y bydd ein camau nesaf yn canolbwyntio arnynt. Bydd albert yn gweithio gyda fforwm SND a rhanddeiliaid ehangach y diwydiant i lunio cynllun gweithredu manwl. Bydd y cynlluniau hyn yn llywio a helpu i gyflwyno Cynllun Trawsnewid i Gymru'r SND ar draws gweddill y DU.

1 Gweithredu

Camau gweithredu ar unwaith i'r diwydiant:

- Newid i ynni cynaliadwy
- Mapio a mynd i'r afael â lefel y teithio a'r dulliau teithio
- Lleihau deunyddiau gwastraff a gwastraff bwyd
- Stiwdios yng Nghymru i gymryd rhan yn y **Safon Cynaliadwyedd Stiwdio**, gyda chyllid gan Gymru Greadigol

2 Ymgysylltu

Mae ar newid mewn diwylliant angen:

- Newid sylweddol mewn ymagwedd gan arweinwyr y diwydiant er mwyn hyrwyddo ymgysylltu ystyrllon
- Hyfforddi a grymuso pawb yn y diwydiant i wneud cynaliadwyedd yn flaenoriaeth
- Targedau clir (e.e. cyllidebau carbon)

3 Cyllid

Bydd ar newidiadau tymor hwy i gynaliadwyedd angen cyllid:

- gan gomisiynwyr a darlledwyr
- gan lywodraethau cenedlaethol a datganoledig
- cymhellion a chredydau treth
- ar gyfer hyfforddiant a chasglu data

4 Data

Mae data mwy cywir yn allweddol:

- Mesur ac olrhain cynnydd
- Deall graddfa'r newidiadau sydd eu hangen

OND, **ni** allwn adael i'r anghenion data hyn **rwystro** newidiadau ar unwaith mewn meysydd rydym ni'n gwybod y byddant yn lleihau gwastraff ac allyriadau carbon.

Ffeithiau Allweddol



Daw

94%

o allyriadau bwyd o brydau bwyd â chig ynddynt mewn cynyrchiadau yng Nghymru

(Ffynhonnell: data ôl troed albert ar gyfer 2022)

Peilota llwybr i ddiwydiant ffilm a theledu uwchraddol y DU fod yn garbon sero ac yn ddiwasttraff

Cynllun Trawsnewid Bargaen
Newydd y Sgrin i Gymru